Adroddiad Cyfarfod 12:10:16 Noson gyda'r Newyddiadurwr Tweli Griffiths

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Gwyneth Jones ac aeth ymlaen gyda newyddion y gangen.

Daeth Delyth yn nain i Teigan Rose merch fach i Gwenan.

Mair ac Emrys wedi dathlu priodas ruddem yn ddiweddar, a Gwenllian, wyres

Gwyneth Williams wedi llwyddo yn ei arholiadau i fod yn fudwraig. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Atgoffwyd yr aelodau fod Eisteddfod Bethel ar ddydd Sadwrn y 15fed Hydref ac er ei fod rhai wythnosau i ffwrdd mae'r nadolig yn nesau ac i bawb wnaeth archebu cardiau a dyddiaduron, maent ar gael gan y trysorydd.

Enillydd y raffl oedd Rhian a dymuniadau gorau iddi ar ei thaith i Seland Newydd yn fuan.

Croesawyd yn gynnes ein gwr gwadd, Tweli Griffiths y newyddiadurwr oedd yn hysbys iawn i ni ar y rhaglen Y Byd ar Bedwar.

Soniodd am ei deithiau i bedwar ban y byd yn hel straeon a newyddion , rhai llawn hwyl ac eraill wrth gwrs yn drist.

Cawsom glywed amdano yn cyfarfod enwogion megis Nelson Mandela, Fidel Castro a’r Cyrnol Gadaffi i enwi ond rhai.

Agorwyd ein llygaid wrth wrando ar yr holl hanesion, a mawr oedd ei falchder wrth ddangos bod ni'r Cymry yn gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliant drwy'r byd.

Roedd ambell hanes am Dde Affrica yn dwymgalon iawn ac wrth gwrs fe allwch ddarllen am rhain yn ei lyfr ‘Yn ei Chanol Hi’

Gorffenodd y noson gan ddangos ei sgil fel consuriwr a mawr oedd yr hwyl pan oedd yn ein swyno hefo tric y cwpan a'r bel a chael ein trysorydd i ddyfalu cost ei siaced!

Cafwyd lluniaeth ysgafn gan y pwyllgor a phawb yn mwynhau y cymdeithasu dros baned.

Wedi'r holl firi diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Mair Read oedd ym MhrifysgolAberystwyth yr un pryd ac ef ac heb ei weld ers peth amser.